

Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Sir Caerfyrddin

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4692A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn	4
Ein dyletswyddau archwilio	4
Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn	4
Pam mae comisiynu yn bwysig	4
Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut olwg sydd ar dda	5
Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad	5
Yr hyn a ganfuom	6
Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor	8
Atodiadau	
Atodiad 1 – cwestiynau a meini prawf archwilio	9

Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad hwn

Ein dyletswyddau archwilio

- 1 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau sydd wedi'u cynnwys yn:
 - adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau; ac
 - adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 2 Gall yr archwiliad hwn hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn

- 3 Ein hamcanion ar gyfer yr archwiliad hwn yw:
 - rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau;
 - rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau; ac
 - esbonio sut mae cynghorau yn mynd ati i gomisiynu gwasanaethau ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.
- 4 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.

Pam mae comisiynu yn bwysig

- 5 Comisiynu yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i gynllunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau trwy ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir ac yn gorffen pan fydd y Cyngor yn trefnu ei ddull o gyflwyno. Er enghraifft, drwy sefydlu tîm cyflenwi'n fewnol, neu drwy gaffael cyflenwr allanol.
- 6 Gall trefniadau comisiynu helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol. I'r gwrthwyneb, gall gwendidau mewn trefniadau comisiynu leihau effaith a gwerth am arian gwasanaethau, hyd yn oed os yw'r prosesau sy'n dilyn, fel caffael a rheoli contractau yn gadarn.



Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a sut olwg sydd ar dda¹

- 7 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.
- 8 Ni wnaeth yr archwiliad hwn gynnwys trefniadau caffael na threfniadau rheoli contract y Cyngor.
- 9 Ceisiodd yr archwiliad ateb y cwestiwn cyffredinol: **Mewn gwasanaethau comisiynu a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**
- 10 Gwnaethom ddefnyddio'r meini prawf archwilio a nodir yn **Atodiad 1**, sydd hefyd yn dangos sut mae'r meini prawf yn ymwneud â'r cwestiynau archwilio. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ein gwybodaeth gronol yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i gefnogi ein harholiadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.



Ein dulliau archwilio a phryd y gwnaethom gynnal yr archwiliad

- 11 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, a chyfweliadau gyda'r swyddogion/uwch swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygu dull strategol y Cyngor o gomisiynu. Fe wnaethom hefyd gyfnewid ag uwch swyddogion â chyfrifoldeb am wasanaethau y mae'r Cyngor wedi'u comisiynu'n allanol.
- 12 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor, gwnaethom gynnal profion samplu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i gomisiynu gwasanaethau. I wneud hyn, gwnaethom ddewis sawl gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi penderfynu comisiynu gwasanaethau yn allanol ac archwilio'r trefniadau comisiynu y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith. Dyma'r sampl o feysydd y gwnaethom eu hadolygu yn y Cyngor:
 - Llesiant Delta – Cymunedau
 - CWM Environmental – Lleoliad, Seilwaith a Datblygu Economaidd
 - Meddalwedd Rheoli Tai – Cymunedau
- 13 Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024.

¹ Wedi'i ddiffinio fel 'beth ddylai fod' yn unol â deddfau neu reoliadau, 'yr hyn a ddisgwylir' yn unol ag arfer gorau, neu 'beth allai fod', petai amodau gwell.

- 14 Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru ac, yn ogystal ag adrodd yn lleol i bob cyngor, rydym hefyd yn bwriadu llunio adroddiad cenedlaethol.



Yr hyn a ganfuom

- 15 **Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor yn ystyried cost a manteision amrywiaeth o ddewisiadau wrth gomisiynu gwasanaethau, ond nid yw ei drefniadau yn rhoi sicrwydd bod hyn yn digwydd yn systematig.** Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.
- 16 Dangosodd y Cyngor sail resymegol glir dros gomisiynu gwasanaethau. Er enghraifft, mae canllawiau rheoli contract y Cyngor yn annog rheolwyr contractau i nodi a deall y gofynion ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Yn y gwasanaethau a adolygwyd, canfuom dystiolaeth o amrywiaeth o ddewisiadau yn cael eu hystyried i lywio gweithgarwch comisiynu. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymgynghorwyr arbenigol i helpu i lywio gwneud y dewisiadau yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd y sector. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gostau a manteision pob dewis.
- 17 Er gwaethaf hyn, mae gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sy'n golygu efallai na fydd adrannau'n ystyried pob dewis comisiynu yn systematig. Er enghraifft, er bod canllawiau rheoli contract y Cyngor yn annog rheolwyr contractau i ystyried dewisiadau cyn i'r contract ddod i ben, nid yw'n cynnwys y gofyniad i gynnal arfarniad dewisiadau ar gyfer unrhyw weithgaredd comisiynu newydd. O ganlyniad, efallai na fydd gan adrannau heb lawer o brofiad o gomisiynu gwasanaethau ymwybyddiaeth ychwaith o sut i ystyried gwahanol ddewisiadau i sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu gwasanaethau. Mae cael dealltwriaeth glir o pam mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, yr hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni, a'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael yn elfennau pwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.
- 18 Mae'r Cyngor yn dangos ystyriaeth o ffactorau tymor byr a hirdymor wrth gomisiynu amserlenni. Er enghraifft, wrth ystyried yr amserlen ar gyfer ei system rheoli tai, dogfennodd y Cyngor y rhesymeg dros hyd y contract i ddarparu cydbwysedd o ran parhad a chyfannu gwasanaethau wrth ystyried pa mor gyflym y mae meddalwedd TG yn newid. Mae'r ystyriaeth hon yn seiliedig ar ganllawiau rheoli contract y Cyngor, sy'n annog rheolwyr contractau i nodi'r adnoddau sydd eu hangen i reoli contractau dros eu hoes wrth gomisiynu. Mae ystyried goblygiadau tymor hir a thymor byr penderfyniadau comisiynu yn lleihau'r risg o beidio â sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.
- 19 Mae'r Cyngor yn ystyried effeithiau ehangach ei wasanaethau a gomisiynir ledled ei amcanion llesiant ei hun. Mae ffurflen porth tendro'r Cyngor yn annog rheolwyr contractau i gofnodi'r ystyriaeth a roddir i amcanion llesiant wrth ymgymryd â chomisiynu. Mynegodd swyddogion hefyd sut mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor a sut y cyfrannodd gwasanaethau

atynt. Mae adroddiad caffael blynyddol y Cyngor hefyd yn gwerthuso sut mae gweithgarwch caffael wedi cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.

- 20 Fodd bynnag, er bod y Cyngor yn ystyried gweithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu gwasanaethau, ychydig o dystiolaeth a ganfuom ni fod amcanion llesiant partneriaid yn cael eu hystyried. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn ystyried amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus fel mater o drefn wrth gomisiynu gwasanaethau. Gall ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau comisiynu helpu'r Cyngor i osgoi dyblygu a nodi nifer o fanteision sy'n sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.
- 21 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid wrth ystyried dewisiadau comisiynu. Yn y gwasanaethau a adolygwyd, roedd dystiolaeth dda o'r Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio penderfyniadau comisiynu. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ysgogi'n bennaf gan y maes gwasanaeth perthnasol heb lawer o fanylion yn y canllawiau rheoli contractau ar bwy ddylai ymgysylltu â nhw na sut olwg sydd ar ymgysylltu da. Mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor bob amser yn mentro ystyried sut i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth wrth gomisiynu gwasanaethau. Gall gweithio gyda'r amrywiaeth gywir o bobl a phartneriaid helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ei gymunedau, a bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.
- 22 Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso ei ddull o gomisiynu fel mater o drefn. Mae canllawiau corfforaethol yn annog swyddogion i adolygu effeithiolrwydd contract unwaith y bydd yn agos at gael ei gwblhau i lywio ymarferion tendro yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni yn erbyn manyleb y contract ac nid yw'n cynnwys ystyried dull comisiynu ehangach y Cyngor.
- 23 Hefyd, nid oes gan y Cyngor ddull systematig o rannu gwersi a ddysgwyd o ran ei ddull comisiynu, o fewn y sefydliad a gyda phartneriaid. Mae gwerthuso cost ac effeithiolrwydd trefniadau comisiynu yn bwysig er mwyn helpu i nodi meysydd i'w gwella, a rhannu dysgu, ac felly sicrhau gwerth am arian.



Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Arddangosyn 1: ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor

Argymhellion

- A1 Er mwyn galluogi'r Cyngor i asesu ac adrodd ar werth am arian gwasanaethau a gomisiynir, dylai sefydlu proses arfarnu dewisiadau gynhwysfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar wasanaethau a gomisiynir. Dylai'r resymeg dros benderfyniadau comisiynu fod:
- wedi'i chofnodi'n llawn;
 - wedi'i llywio drwy ystyried ffactorau tymor byr a thymor hir;
 - wedi'i llywio gan farn y rhai y bydd y gwasanaeth a gomisiynir yn effeithio arnynt; ac
 - asesiad risg gan gynnwys ystyried costau llawn a manteision pob dewis.
- A2 Nid yw'r Cyngor yn gwerthuso prosesau comisiynu fel mater o drefn ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai'r Cyngor sefydlu trefniadau i:
- gwerthuso gwerth am arian yn systematig o'i ddull o gomisiynu gwasanaethau; a
 - rhannu gwersi a ddysgwyd o werthuso ei ddull comisiynu ar draws adrannau a gyda phartneriaid allanol lle bo hynny'n berthnasol.

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiwn cyffredinol: Wrth gomisiynu gwasanaethau a yw'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

Cwestiwn Lefel 2	Cwestiynau Lefel 3	Meini prawf
A oes gan y Cyngor sail resymegol glir dros gomisiynu gwasanaethau?	A yw'r Cyngor yn diffinio'n glir y gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu a pham?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Cyngor yn nodi diffiniad clir o'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu comisiynu.• Mae'r Cyngor yn nodi 'pam' y mae angen iddo gomisiynu'r gwasanaethau gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none">– y canlyniadau/effaith arfaethedig o ddarparu'r gwasanaeth; ac– os/sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
	A yw'r Cyngor yn cynnal gwerthusiad cynhwysfawr o ddewisiadau comisiynu cyn penderfynu comisiynu gwasanaeth?	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r Cyngor yn ystyried yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth - gallai'r dewisiadau gynnwys, er enghraifft:<ul style="list-style-type: none">– darpariaeth fewnol;– trefniadau partneriaeth neu ddulliau o gomisiynu o fewn ac ar draws sectorau;– allanoli'r gwasanaeth i ddarparwr arall drwy ymddiriedolaeth neu drefniant arall; a– chontractio'r gwasanaeth drwy broses dendro.• Mae'r Cyngor yn ystyried costau a manteision y dewisiadau o safbwynt economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd - gan gynnwys dros y tymor byr, canolig a hir.• Mae'r Cyngor yn cynnwys costau rheoli contractau wrth asesu dewisiadau comisiynu.

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn cynnwys asesiad risg ar gyfer pob dewis comisiynu fel rhan o asesu costau a manteision. • Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau presennol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau a gomisiynir.
A yw'r Cyngor yn cynllunio dros amserlen briodol?	A yw'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gomisiynu gwasanaethau?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o gomisiynu gwasanaethau – h.y. pa mor bell ymlaen y mae'n gallu/y dylai gynllunio a pham. • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd yn cydbwysio anghenion tymor byr a hirdymor wrth gynllunio comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys, er enghraifft, wrth bennu'r amserlen ar gyfer contractau neu drefniadau comisiynu eraill.
	A yw'r Cyngor yn deall goblygiadau adnoddau tymor hir wrth gomisiynu gwasanaethau?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen arno dros y tymor canolig a'r tymor hwy (costau oes gyfan) i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir. • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y gellid gweithredu amrywiaeth o senarios lleihau cyllideb yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.
	A yw'r Cyngor yn nodi sut y bydd yn monitro gwerth am arian gwasanaethau a gomisiynir dros y tymor byr, canolig a hir?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn nodi'r trefniadau monitro y bydd yn eu dilyn ar gyfer y gwasanaeth a gomisiynir. • Dylai'r Cyngor nodi sut y bydd gwerth am arian o ran gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – costau a manteision; a – chynnydd tuag at gerrig milltir a mesurau tymor byr, canolig a thymor hir.
A yw'r Cyngor wedi meddwl am yr effeithiau ehangach y gallai ei wasanaeth comisiwn eu cael?	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall wneud y mwyaf o'i gyfraniad at amcanion llesiant y Cyngor?	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar ei holl amcanion llesiant ei hun i sicrhau manteision amryfal, osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, ystyried amcanion tymor hwy, cadwyn gyflenwi leol,

		cydnerthedd y farchnad ac effaith hyd amser contract, bioamrywiaeth, lleihau carbon.
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o'u cyfraniad at amcanion llesiant cyrff sector cyhoeddus eraill?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff eraill y sector cyhoeddus i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
	Wrth gomisiynu gwasanaethau, a yw'r Cyngor yn ystyried sut y gall gwasanaethau wneud y mwyaf o'u cyfraniad i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn ystyried sut y bydd gwasanaethau a gomisiynir yn effeithio ar y nodau llesiant cenedlaethol i sicrhau manteision amryfal ac osgoi dyblygu neu unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
A yw'r Cyngor yn gweithio gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i ddylunio a darparu ei wasanaethau a gomisiynwyd?	A yw'r Cyngor wedi nodi pwy sydd angen ei gynnwys?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn deall pwy fydd yn cael eu heffeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan wasanaethau a gomisiynir. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ddadansoddiad rhanddeiliaid neu debyg.
	A yw'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl?	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth benderfynu sut i gomisiynu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn defnyddio canlyniadau gweithgarwch cyfranogiad i lywio sut y bydd yn comisiynu gwasanaethau, gan gynnwys ei effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
	A yw'r Cyngor yn cydweithio â'r partneriaid cywir?	<ul style="list-style-type: none"> Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba bartneriaid a phartneriaid posibl y gallai weithio gyda nhw i gomisiynu gwasanaethau i wella gwerth am arian. Mae hyn wedi'i lywio gan ddadansoddiad cynhwysfawr o bartneriaid posibl a'u blaenoriaethau. Lle y nodir cyfleoedd i wella gwerth am arian drwy gomisiynu gwasanaethau mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn eu dilyn.

<p>A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i werthuso gwerth am arian ei ddull gweithredu o ran comisiynu?</p>	<p>A yw'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau comisiynu fel mater o drefn?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei ddull o gomisiynu yn rheolaidd, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – i ba raddau y mae gwasanaethau a gomisiynir yn cyflawni'r amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod; a – gwerth am arian modelau comisiynu a ddewisir gan gynnwys ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau.
	<p>A yw'r Cyngor yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd yn rheolaidd i lywio ymarferion comisiynu yn y dyfodol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn defnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd o'i ddull o gomisiynu'n eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English